Llywodraeth Cymru

# Dogfen Ymgynghori

# Diogelwch ar y ffyrdd yng Nghymru – Stategaeth diogelwch ffyrdd newydd

Rydym eisiau eich barn ar sut iwella diogelwch ar y ffyrdd ar gyfer pob math o ddefnyddwyr ffyrdd yng Nghymru

Dyddiad cyhoeddi: 8 Tachwedd 2023

Camau i'w cymryd: Ymatebion erbyn 31 Ionawr 2024

Mae'r ddogfen hon ar gael yn Saesneg hefyd / This document is also available in English.

Rydym yn croesawu gohebiaeth a galwadau ffôn yn Gymraeg / We welcome correspondence and telephone calls in Welsh

## Ymgynghoriad ar Strategaeth Diogelwch ar y Ffyrdd

### Trosolwg

Rydym am glywed eich barn am ddiogelwch ein ffyrdd a diogelwch ar ein ffyrdd, er mwyn ein helpu i ddeall eich blaenoriaethau a beth yw'r ffordd orau o sicrhau bod ein ffyrdd yn ddiogel i bawb.

Byddwn yn defnyddio'r ymatebion i'r ymgynghoriad hwn, ochr yn ochr â'n trafodaethau â rhanddeiliaid sy'n gweithio o fewn cwmpas diogelwch ar y ffyrdd, arolwg sampl ar hap o boblogaeth Cymru a gweithdai sy'n cynnwys grwpiau ymylol, i greu Strategaeth newydd ar gyfer Diogelwch ar y Ffyrdd yng Nghymru.

### Cyflwyniad

Rydym o'r farn bod marwolaethau ac anafiadau difrifol ar ein ffyrdd yn foesol annerbyniol, ac felly rydym wedi ymrwymo i'w dileu (gelwir hyn yn "Weledigaeth Sero"). Rydym yn teimlo y dylai pawb chwarae eu rhan i weithio tuag at yr ymrwymiad hwnnw. Mae hyn yn golygu dull newydd, mwy rhagweithiol o ymdrin â diogelwch ar y ffyrdd sydd â'r nod o ddileu risgiau lle bo hynny'n bosibl a gwneud ein cymunedau'n lleoedd mwy diogel, iach a chynaliadwy. Byddwn yn gwneud popeth o fewn ein gallu ac yn annog ein partneriaid i wneud gwelliannau i'r rhwydwaith ffyrdd, annog y defnydd o derfynau cyflymder diogel yn ddibynnol ar fath a swyddogaeth y ffordd, annog newid ymddygiad, dylanwadu ar ddiogelwch cerbydau, annog ymateb effeithiol gan y gwasanaethau brys ar ôl damwain, a chymorth ystyrlon i ddioddefwyr.

### Sut i ymateb

Bydd y cyfnod ymgynghori o 12 wythnos yn dechrau ar 8 Tachwedd ac yn dod i ben ar 31 Ionawr 2024. Dylid cyflwyno ymatebion drwy'r ddolen hon: https://www.smartsurvey.co.uk/s/YQQVA0/. Mae'r arolwg hefyd ar gael yn Gymraeg ac mewn fformatau eraill ar gais: https://www.smartsurvey.co.uk/s/YQQVA0/?lang=845668.

Gwnewch yn siŵr fod eich ymateb yn ein cyrraedd cyn y dyddiad cau.

### Rhagor o wybodaeth a dogfennau cysylltiedig

Mae'r ddogfen hon ar gael mewn print bras, Braille neu mewn ieithoedd eraill ar gais**.**

## Manylion cyswllt

Dychwelwch y ffurflenni wedi'u cwblhau i:

**E-bost:** DiogelwchArYFfyrdd@llyw.cymru

**Neu**

**Post:** Llywodraeth Cymru
Trafnidiaeth - Strategaeth a Pholisi
2il Lawr
Parc Cathays
Caerdydd, CF10 3NQ

## Rheoliad Cyffredinol y Deyrnas Unedig ar Ddiogelu Data (GDPR UK)

Llywodraeth Cymru fydd y rheolydd data ar gyfer ymgynghoriadau Llywodraeth Cymru ac unrhyw ddata personol a ddarperir gennych wrth ichi ymateb i’r ymgynghoriad.

Mae gan Weinidogion Cymru bwerau statudol y byddant yn dibynnu arnynt i brosesu’r data personol hyn a fydd yn eu galluogi i wneud penderfyniadau cytbwys ynghylch sut y maent yn cyflawni eu swyddogaethau cyhoeddus. Y sail gyfreithlon ar gyfer prosesu gwybodaeth yn yr ymarfer casglu data hwn yw ein tasg gyhoeddus; hynny yw, arfer ein hawdurdod swyddogol i ymgymryd â rôl a swyddogaethau craidd Llywodraeth Cymru (Erthygl 6(1)(e)).

Bydd unrhyw ymateb a anfonwch atom yn cael ei weld yn llawn gan staff Llywodraeth Cymru sy'n gweithio ar y materion y mae'r ymgynghoriad hwn yn ymwneud â nhw neu sy’n cynllunio ymgynghoriadau ar gyfer y dyfodol. Yn achos ymgynghoriadau ar y cyd, gall hyn gynnwys awdurdodau cyhoeddus eraill hefyd. Pan fo Llywodraeth Cymru yn cynnal dadansoddiad pellach o'r ymatebion i ymgynghoriad, gall trydydd parti achrededig (ee, sefydliad ymchwil neu gwmni ymgynghori) gael ei gomisiynu i wneud y gwaith hwnnw. Dim ond o dan gontract yr ymgymerir â gwaith o'r fath. Mae telerau ac amodau safonol Llywodraeth Cymru ar gyfer contractau o'r fath yn nodi gofynion caeth ar gyfer prosesu a chadw data personol yn ddiogel.

Er mwyn dangos bod yr ymgynghoriad wedi’i gynnal yn briodol, mae Llywodraeth Cymru yn bwriadu cyhoeddi crynodeb o'r ymatebion i'r ddogfen hon. Mae’n bosibl hefyd y byddwn yn cyhoeddi’r ymatebion yn llawn. Fel arfer, cyhoeddir enw a chyfeiriad (neu ran o gyfeiriad) yr unigolyn neu'r sefydliad a anfonodd yr ymateb gyda'r ymateb. Os nad ydych yn dymuno i’ch enw a’ch cyfeiriad gael eu cyhoeddi, rhowch wybod inni yn ysgrifenedig wrth anfon eich ymateb. Byddwn wedyn yn cuddio’ch manylion cyn cyhoeddi’ch ymateb.

Dylech hefyd fod yn ymwybodol o'n cyfrifoldebau o dan ddeddfwriaeth Rhyddid Gwybodaeth ac y gallai Llywodraeth Cymru fod o dan rwymedigaeth gyfreithiol i ddatgelu rhywfaint o wybodaeth.

Os caiff eich manylion chi eu cyhoeddi fel rhan o'r ymateb i'r ymgynghoriad, caiff yr adroddiadau cyhoeddedig hyn eu cadw am gyfnod amhenodol. Ni fydd gweddill eich data a gadwir fel arall gan Lywodraeth Cymru yn cael eu cadw am fwy na thair blynedd.
Eich hawliau
O dan ddeddfwriaeth diogelu data, mae gennych yr hawl:

- i wybod am y data personol a gadwir amdanoch chi a'u gweld
- i'w gwneud yn ofynnol inni gywiro gwallau yn y data hynny
- (o dan amgylchiadau penodol) i wrthwynebu prosesu neu gyfyngu ar brosesu
- (o dan rai amgylchiadau) i'ch data gael eu 'dileu'
- (o dan rai amgylchiadau) i gludadwyedd data
- i gyflwyno cwyn i Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth (SCG), ein rheoleiddiwr annibynnol ar gyfer diogelu data

I gael rhagor o fanylion am yr wybodaeth y mae Llywodraeth Cymru yn ei dal ac am y defnydd a wneir ohoni, neu os ydych am arfer eich hawliau o dan Reoliad Cyffredinol y DU ar Ddiogelu Data, gweler y manylion cyswllt isod:

Y Swyddog Diogelu Data:

Llywodraeth Cymru
Parc Cathays
Caerdydd
CF10 3NQ
e-bost: swyddogdiogeludata@llyw.cymru

Manylion cyswllt Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth:

Wycliffe House
Water Lane
Wilmslow
Swydd Gaer/Cheshire
SK9 5AF
Ffôn: 0303 123 1113

### Cwestiynau

**C1a**. Ydych chi'n ateb drosoch eich hun neu ar ran sefydliad?

- Fy hun (Ewch i C2)
- Sefydliad (Ewch i C1b)

**C1b.** Os ydych yn ymateb ar ran sefydliad, rhowch enw eich sefydliad:

- [*Free Text*]

  Ewch ymlaen i C14

**C2. Pa un o'r canlynol yw'r disgrifiad gorau o'ch rhywedd?**

i) Gwryw
ii) Benyw
iii) Arall (Optional should only appear if you shoose this option)
iv) Mae'n well gen i beidio â dweud

NODWCH (OPSIYNOL)____________________________________________

**Q3. Nodwch eich oedran**

16 i 24 25 i 34 35 i 44 45 i 54 55 i 64 65+

**Q4. A oes gennych unrhyw amhariadau corfforol neu feddyliol sydd wedi para neu y disgwylir iddynt bara 12 mis neu fwy? Os oes, ewch i C5**

i) Oes (Ewch i C5)
ii) Nac oes (Ewch i C6)
iii) Ddim yn gwybod (Ewch i C6)
iv) Mae'n well gen i beidio â dweud (ewch i C6)

**C5. A yw unrhyw rai o'ch amhariadau yn effeithio ar eich gallu i gyflawni gweithgareddau dyddiol?**

i) Ydyn, maent yn amharu llawer iawn

ii) Ydyn, maent yn amharu ychydig
iii) Ddim o gwbl
iv) Ddim yn gwybod
v) Mae’n well gen i beidio â dweud

**C6. Faint o bob un o’r grwpiau canlynol sydd yn eich cartref? (Cofiwch gynnwys eich hun)**
Os nad oes unrhyw blant mewn unrhyw gategori oedran penodol, nodwch ‘0’ yn y blwch

_ Dim plant
_ Nifer y plant (0-6 mlwydd oed)
_ Nifer y plant (7-11 mlwydd oed)
_ Nifer y plant (12-15 mlwydd oed)
_ Nifer y plant (16+ mlwydd oed)

**C7. Sut fyddech chi’n disgrifio’r ardal lle’r ydych yn byw? A fyddech chi’n ei disgrifio fel ardal drefol neu ardal wledig?**

Dewiswch un

i) Trefol
ii) Gwledig

**C8. Ydych chi neu unrhyw un arall yn eich cartref yn berchen ar gar neu fan, neu yn defnyddio car neu fan yn rheolaidd?**

i) Ydw, fi
ii) Ydw, person arall yn y cartref
iii) Na, neb
iv) Ddim yn gwybod
v) Mae’n well gen i beidio â dweud

**Q9. Pa rai o’r dulliau teithio fyddwch chi’n eu defnyddio? *Ticiwch bob un sy’n berthnasol.***

Cerdded
Beicio
Cadair olwyn
E-feic

E-sgwter
Sgwter Symudedd/Cadair Bŵer Dosbarth 3
Car/Fan
Cerbyd nwyddau trwm (HGV)
Beic modur
Trafnidiaeth gyhoeddus

**C10. Wrth feddwl am y lle'r ydych yn byw, ydych chi'n cytuno neu'n anghytuno â'r datganiadau isod?** (Anghytuno'n gryf / Anghytuno / Ddim yn cytuno nac yn anghytuno / Cytuno / Cytuno'n gryf)

| | | Anghytuno'n gryf | Anghytuno | Ddim yn cytuno nac yn anghytuno | Cytuno | Cytuno'n gryf |
|---|---|---|---|---|---|---|
| i | Yn gyffredinol, mae ceir neu gerbydau eraill yn cael eu gyrru'n rhy gyflym | | | | | |
| ii | Mae ceir neu gerbydau eraill yn cael eu gyrru'n rhy gyflym ger ysgolion. | | | | | |
| iii | Yn gyffredinol, mae ceir neu gerbydau eraill yn cael eu gyrru ar gyflymder diogel mewn ardaloedd lle mae llawer o gerddwyr. | | | | | |
| iv | Mae ceir neu gerbydau eraill sydd wedi eu parcio ar balmentydd yn berygl i ddiogelwch. | | | | | |
| v | Mae ffyrdd lle rydw i'n byw yn ddiogel i feicwyr eu defnyddio. | | | | | |

| | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| vi | Mae'r plant yn ddiogel wrth groesi'r ffyrdd lle rydw i'n byw. | | | | | |
| vii | Lle rydw i'n byw, does dim digon o lonydd a llwybrau beicio. | | | | | |
| viii | Rydw i'n teimlo'n ddiogel yn croesi'r ffordd lle rydw i'n byw. | | | | | |
| ix | Rydw i'n poeni am ddiogelwch aelodau eraill o'r teulu pan fyddant yn cerdded, beicio, neu ar olwynion yn lle rydym ni'n byw | | | | | |
| x | Nid yw'n hawdd i bobl anabl ddefnyddio'r ffyrdd a'r palmentydd lle rydw i'n byw. | | | | | |
| xi | Poeni am bobl ddim yn gwisgo eu gwregys diogelwch mewn ceir | | | | | |
| xii | Mae ffyrdd nad ydynt yn cael eu cynnal yn dda yn achosi risgiau o ran diogelwch i ddefnyddwyr ffyrdd. | | | | | |
| xiii | Mae goleuadau stryd gwael yn broblem diogelwch ar y ffyrdd. | | | | | |
| xiv | Mae pobl sy'n defnyddio eu ffonau symudol wrth yrru yn broblem diogelwch ar y ffyrdd | | | | | |
| xv | Mae pobl sy'n gyrru o dan ddylanwad alcohol neu gyffuriau yn broblem diogelwch ar y ffyrdd | | | | | |

**C11**: **Pa mor ddiogel neu anniogel ydych chi'n ei deimlo wrth wneud pob un o'r canlynol?**

| | Rydw i'n teimlo'n ddiogel iawn | Rydw i'n teimlo'n ddiogel | Rydw i'n teimlo'n anniogel | Rydw i'n teimlo'n anniogel iawn | Ddim yn berthnasol / Dydw i ddim yn defnyddio'r dull hwn o deithio |
|---|---|---|---|---|---|
| Cerdded | | | | | |
| Beicio | | | | | |
| Defnyddio cadair olwyn | | | | | |
| Marchogaeth ceffyl | | | | | |
| Defnyddio sgwter symudedd | | | | | |
| Gyrru car | | | | | |
| Teithio ar fws | | | | | |
| Reidio beic modur | | | | | |

**C12: Pa wahaniaeth y byddai'n ei wneud i chi yn bersonol pe bai'r ffyrdd yn teimlo'n fwy diogel – a fyddai'n eich gwneud yn fwy tebygol i wneud y canlynol…?**

| | | Byddai | Na fyddai | Ddim yn gwybod | Amherthnasol / Ddim yn gwneud hyn |
|---|---|---|---|---|---|
| i) | Cerdded mwy | | | | |
| ii) | Gyrru mwy | | | | |
| iii) | Beicio neu sgwtera mwy | | | | |
| iv) | Mynd o gwmpas ar fy nghadair olwyn yn fwy aml | | | | |
| v) | Defnyddio trafnidiaeth gyhoeddus yn amlach | | | | |
| vi) | Defnyddio fy Sgwter Symudedd/Cadair Bŵer Dosbarth 2/3 yn amlach | | | | |
| vii) | Gwneud rhywbeth arall (nodwch) ____________________ | | | | |

**C13. Ydych chi erioed wedi cael eich anafu mewn gwrthdrawiad ar y ffordd, un ai fel gyrrwr, beiciwr neu gerddwr?**

Do (Ewch i C14a a C14b)
Na (Ewch i C15)

**C13a. Oeddech chi yn teimlo eich bod wedi cael cymorth digonol?**

Oeddwn
Nac oeddwn (Ewch i C13b)

**C13b. Os na chawsoch gymorth digonol, sut gallai fod wedi bod yn well?**

Nodwch ________________

**C14. A ydych chi'n teimlo y dylid gwneud mwy i wneud ffyrdd Cymru yn fwy diogel?**

Ydw **(Ewch i C14a a C14b)**
Nac ydw (Ewch i C15)

**C14a. Pa un o'r rhesymau hyn sy'n egluro pam yr ydych o'r farn y dylid gwneud mwy i wneud ffyrdd Cymru'n fwy diogel?**
*Dewiswch bob un sy'n berthnasol*

Annog mwy o gerdded a beicio
Gwella ansawdd bywyd
Gwella llif y traffig
Ei gwneud yn fwy diogel i feicwyr
Ei gwneud yn fwy diogel i farchogwyr
Ei gwneud yn fwy diogel i gerddwyr
Gwneud strydoedd yn llefydd mwy dymunol i fyw ynddynt
Golygu y gall plant chwarae'n fwy diogel
Golygu llai o ddamweiniau difrifol ar y ffyrdd
Lleihau sŵn
Lleihau llygredd aer

Lleihau'r risg o wrthdrawiadau angheuol
Gwella iechyd corfforol a meddyliol
Ei gwneud yn haws mynd o gwmpas eich cymuned
Arall (Nodwch) ________________________________
Dim
Ddim yn gwybod

**C14b. A pha un yw'r prif reswm?**

Annog mwy o gerdded a beicio
Gwella ansawdd bywyd
Gwella llif y traffig
Ei gwneud yn fwy diogel i feicwyr
Ei gwneud yn fwy diogel i gerddwyr
Gwneud strydoedd yn llefydd mwy dymunol i fyw ynddynt
Golygu y gall plant chwarae'n fwy diogel
Golygu llai o ddamweiniau difrifol ar y ffyrdd
Lleihau sŵn
Lleihau llygredd aer
Lleihau'r risg o ddamweiniau angheuol
Gwella iechyd corfforol a meddyliol
Ei gwneud yn haws mynd o gwmpas eich cymuned
Arall (Nodwch) ________________________________

**C15. Yn eich barn chi, pa rai o'r canlynol fyddai'n gwneud ffyrdd yn fwy diogel i holl ddefnyddwyr y ffordd, sef gyrwyr, beicwyr, cerddwyr a defnyddwyr eraill?**
*Dewiswch eich tri uchaf*

Rheoli cyflymder drwy ddulliau gorfodi cyflymder (ee drwy stopio gan yr heddlu a chamerâu diogelwch)
Rheoli cyflymder drwy ddyluniad ffyrdd (ee rhwystrau igam-ogam a thwmpathau cyflymder)
Rheoli cyflymder drwy ddefnyddio gostyngiadau terfynau cyflymder
Adnoddau ar wahân ar gyfer cerddwyr a beicwyr
Dylunio ffyrdd fel bod holl ddefnyddwyr y ffyrdd yn deall sut y dylid eu defnyddio
Defnyddio dulliau gorfodi heddlu i sicrhau fod holl ddefnyddwyr y ffyrdd yn cydymffurfio â chyfreithiau traffig
Rheoli'r ffyrdd yn well
Gwella goleuadau stryd

Darparu mwy o leoedd diogel i gerddwyr groesi'r ffordd
Gwella mynediad i bobl anabl (ee cwrbiau isel)
Creu mwy o barthau i gerddwyr
Creu mwy o lonydd beicio
Rheoleiddio e-sgwteri
Arall (Nodwch) ______________________________
Dim o'r rhain
Ddim yn gwybod

**C16. Beth arall y gellid ei wneud i annog holl ddefnyddwyr y ffordd i ymddwyn yn ddiogel ac yn gyfrifol?**

Nodwch _____________________________

**C17. Yn eich barn chi, pa mor bwysig yw pob un o'r ffactorau canlynol o ran gwneud y ffyrdd yn fwy diogel i bawb?**

*Ddim yn bwysig o gwbl / Ddim yn bwysig / Ddim yn ddibwys nac yn bwysig / Pwysig / Pwysig iawn / Ddim yn gwybod*

a) Dealltwriaeth defnyddwyr ffyrdd o reolau'r ffyrdd
b) Ymrwymiad defnyddwyr ffyrdd i reolau'r ffyrdd
c) Pobl yn parchu ei gilydd ar y ffyrdd
d) Cynllun ffyrdd (gan gynnwys palmentydd a lonydd beicio)
e) Gorfodi rheolau'r ffyrdd, gan yr heddlu er enghraifft
f) Cynllun cerbydau a thechnoleg cerbydau
g) Deddfwriaeth gryfach
h) Digon o le i bob math o ddefnyddwyr ffyrdd
i) Terfynau cyflymder
j) Cynnal a chadw ffyrdd
k) Digon o fannau croesi diogel i gerddwyr
l) Palmentydd heb rwystrau

**C18. Yn eich barn chi, faint o gyfrifoldeb sydd gan y canlynol o ran gwneud y ffyrdd yn ddiogel i bawb?**

*Llawer o gyfrifoldeb / Rhywfaint o gyfrifoldeb / Ychydig o gyfrifoldeb / Dim cyfrifoldeb o gwbl / Ddim yn gwybod*

i) Fi fy hun fel unigolyn
ii) Eich cyngor lleol

iii) Yr Heddlu
iv) Y Gwasanaeth Tân ac Achub
v) Modurwyr/gyrwyr
vi) Pobl sy'n cerdded
vii) Pobl sy'n beicio
viii) Marchogion
ix) Llywodraeth Cymru
x) Gwneuthurwyr cerbydau
xi) Hyfforddwyr gyrru /arholwyr gyrru
xii) Llywodraeth y DU (Yr Adran Drafnidiaeth)
xiii)Ysgolion/colegau
xiv) Arall (Nodwch) ________________________________

**C19. A oes unrhyw beth arall yr hoffech ei ychwanegu?**
Nodwch _______________

Mae'r ddogfen hon ar gael yn Saesneg hefyd / This document is also available in English.
Rydym yn croesawu gohebiaeth a galwadau ffôn yn Gymraeg / We welcome correspondence and telephone calls in Welsh